

Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6
Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystem 2022

CYNGOR CYMUNED FALI

Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Cymuned y Fali yn darparu amryw o wasanaethau i'w gymuned leol sydd yn effeithio ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am nifer o lecynnau tir glas gan gynnwys
 - Parc Mwd, parc hamdden mawr sy'n cyfuno mannau sydd a dibenion ffurfiol gyda mannau naturiol i hybu bywyd gwylt. Mae'r parc yn agos i dir gwlyb y Fali, gwarchodfa natur arbennig ac mae'r afon sy'n rhedeg gyfochrog â'r parc yn cynnwys halen naturiol y môr. Mae'r parc yn boblogaidd gyda phobl sy'n cerdded cŵn, yn cynnwys tri cae pêl droed gyda dau ohonynt ar les i Glwb Pêl Droed Iau a Chlwb Pêl Droed Oedolion y Fali ac mae yna hefyd faes chwarae boules. Mae'r pafiliwn yn rhoi cyfleusterau newid a chael cawod, ystafell gyfarfod fechan a chegin.
 - Mae Cyngor Cymuned y Fali yn gweithio mewn cydweithrediad gyda Grŵp Cymunedol y Fali sydd fel rhan o brosiect pontio'r cenedlaethau wedi cymryd darn o dir ar brydles i'w ddefnyddio fel llecyn chwarae naturiol o fewn Parc Mwd.
 - Parc Chwarae y Fali– dyma ddarn o dir y mae Cyngor Cymuned Fali yn ei ddal trwy brydles gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddarparu man chwarae gydag offer chwarae a lle i gael picnic. Mae'r safle yn ymyl Ysgol Gymuned y Fali.
 - Mynwent Ynys Wen – mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw ac edrych ar ôl tir y fynwent o fewn mynwent y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cofeb i'r rhyfel.
 - Parc Branwen tir glas at ddibenion hamdden o fewn ystad dai.
- Cynnal a chadw a thrwsio pob llwybr cyhoeddus yn nalgylch y cyngor cymuned ynghyd â chysgodfannau bws a chloc y gymuned.
- Cyllid – rydym yn rhoi cyfraniadau ariannol tuag at ddigwyddiadau blynyddol a drefnwyd gan Grŵp Cymunedol y Fali, e.e coeden Nadolig y pentref.
- Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth trwy osod amcanion ac ymarferion cynaliadwy pan fo'n bosibl.

Rydym yn gwasanaethu oddeutu 2400 o drigolion. Roedd y praesept ar gyfer 2019-20 yn £37443.65

Adroddiad Gweithrediadau

Camau a wnaed tuag at:		Monitrwyd gan
Sefydlu bioamrywiaeth fel rhan anatod o wneud penderfyniadau a chaffael	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhau ymroddiad i fioamrwyiaeth a manau naturiol trwy warchod tegeiriau gwyllt sy'n tyfu ym Mharc Mwd twy wneud yn siwr bod yr ardal hon yn cael ei gwarchod yn ystod y cyfnod torri gwair hyd nes bod y tymor drosodd.• Rhoddwyd sylw i ystyriaethau bioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion perthnasol eraill megis gorchmynion i ddargyfeirio llwybrau troed.	Y clercc Cofnod yn y cofnodion
Codi ymwybyddiaeth o feioarmywiaeth a'i bwysigrwydd	<ul style="list-style-type: none">• Annog pob cyngorydd i ystyried mynychu sesiynau hyfforddiant.	Cofnodion presenoldeb
Diogelu y prif rywogaethau a'u cynefinoedd	<ul style="list-style-type: none">• Sicrhawyd nad oedd unrhyw effaith negyddol ar rywogaethau wedi eu gwarchod.• Cyfrannu tuag at reolaeth Parc Mwd gan sicrhau bod rhai manau yn cael tyfu'n wyllt i ddarparu cynefinoedd naturiol.• Ymateb i gais i ddymchwel coed a warchodwyd gan Orchymynion Digoelu Coed. Rhoddir blaenoriaeth i warchod coed presennol ond os bydd angen eu tynnu i lawr, bod angen cael yr un math o goed yn eu lle, ac o ddewis rhai aeddfed.	Pwyllgor Parc Mwd Cyngor Llawn Cofnod yn y cofnodion
Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cadarn.	<ul style="list-style-type: none">• Mae tir glas y Cyngor bellach mewn cyflwr da ac mae'r Cyngor wedi parhau i wneud yn siwr eu bod yn aros felly trwy ganolbwyntio ar ddarparu cydbwysedd o lecynnau tir glas ffurfiol a rhai naturiol sy'n denu bywyd a ffrwythau gwyllt. Gwneir hyn trwy ymroddiad i'w cynnal trwy fod yn ofalus o ran rhoi arian o'r neilltu a chaffael gwasanaethau.	Clerc Cyngor Llawn
Mynd i'r afael gyda ffactorau negyddol e.e lleihau llygredd,	<ul style="list-style-type: none">• Defnyddio plaladdwyr dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol a sicrhau bod contractwyr cynnal a chadw wedi cael hyfforddiant priodol yn y maes.	Clerc a'r Cyngor Llawn

defnyddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a delio gyda rhywogaethau ymwithiol	Sicrhawyd hyn trwy broses gaffael effeithiol.	
Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn rhoi gwybodaeth ar Ran 1 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Bioamrwyiaeth a Chadernid Ecosystemau Sicrhau bod materion sy'n gysylltiedig gyda'r maes hwn yn cael eu cofnodi'n briodol. 	l'w gyflawni yn 2020/21 Clerc
Capasiti cefnogol a/neu sefydliadau eraill.	<ul style="list-style-type: none"> Pan fo'r gofyn yn codi rhoi cyfarwyddwyd i unrhyw grwpiau lleol a all fod angen cyngor. 	Pob aelod.

Arolwg o ddyletswydd A6

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Rydym wedi mabwysiadu proses o geisio sicrhau bod gwaith yn cael ei roi i gontractwyr lleol ac felly yn lleihau yr ôl troed carbon.

Rydym wedi mabwysiadu rhaglen dreigl ar gyfer newid yr holl feinciau gyda rhai wedi eu gwneud o ddeunydd ailgylchu.

Wrth ystyried prosiectau newydd rydym wedi ystyried ein dyletswydd.

Rydym wedi gwarchod y mannau lle mae tegeiriau gwyllt ac wedi sicrhau bod grwychoedd yn cael eu torri ar yr adegau priodol.

Rydym wedi parhau i annog trigolion lleol i gasglu mwyr gwyllt yn y parc ac i hel ffrwythau gwyllt o'r coed ffrwythau a blanyddoedd yn ôl, fel rhan o ymgyrch i gefnogi bwyta'n iach a byw bywyd bywiog.

Rydym wedi cynhyrchu canllawiau arfer da ar gyfer y rhai hynny sy'n mynd â chŵn am dro yn y parc.

Rydym wedi darparu bin sbwriel ym man chwarae'r plant i annog plant i gadw'u cymuned yn dwt.

Rydym wedi sicrhau bod unrhyw bryniannau a wneir yn cydymffurfio â'n gofyniad i ystyried defnyddio deunyddiau ailgylchadwy.

Beth oedd y rhywstrau?

Diffyg gwybodaeth ac arbenigedd o ran oblygiadau'r ddyletswydd i ystyried bioamrwyiaeth a chadernid ecosystemau ac efallai dim digon o gapasiti i ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach.

Beth a fydddech yn ei newid?

Byddwn yn annog pob aelod i fynychu hyfforddiant mewn bioamrywiaeth a gwytnwch nawr y dylai'r cyrsiau hyn fod ar gael ar-lein unwaith eto.

Dros y flwyddyn nesaf, sicrhau bod gwefan y Cyngor Cymuned yn parhau i hyrwyddo ei pholisi wrth wneud penderfyniadau ar ran y gymuned y mae'n ei gwasananaethu.